Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Ffairfach
# Heol Bethlehem
# Ffairfach
# Llandeilo
# Sir Gaerfyrddin
# SA19 6SY

## Dyddiad yr arolygiad: Gorffennaf 2017

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**© Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 06/09/2017**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Ffairfach wedi ei lleoli ym mhentref Ffairfach ger Llandeilo, yn awdurdod lleol Sir Gaerfyrddin ac mae'n gwasanaethu'r pentref a'r ardal gyfagos. Mae'n darparu addysg ar gyfer dysgwyr rhwng 3 ac 11 oed. Mae 106 o ddisgyblion ar y gofrestr, sy'n cynnwys 14 o ddisgyblion oed meithrin amser llawn ac fe'u haddysgir mewn pedwar dosbarth oed cymysg.

Cymraeg yw iaith bob dydd yr ysgol a phrif gyfrwng y dysgu a'r addysgu. Fe addysgir Saesneg yn ffurfiol ym Mlwyddyn 3. Daw 37% o'r disgyblion o gartrefi ble siaradir Cymraeg. Ychydig iawn o ddisgyblion sydd o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig. Dros y tair blynedd ddiwethaf, mae oddeutu 6% o ddisgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sy'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae 27% o ddisgyblion ar gofrestr anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol, sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf ym mis Mai 2010. Penodwyd y pennaeth i'w swydd ym mis Medi 1995.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Ffairfach yn 2016-2017 yw £3,644. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yn Sir Gaerfyrddin yw £9,689 a'r lleiafswm yw £3,083. Mae Ysgol Gynradd Ffairfach yn y 45ed safle o'r 100 ysgol gynradd yn Sir Gaerfyrddin o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

# Crynodeb

| Perfformiad presennol yr ysgol | Da |
|---|---|
| Rhagolygon gwella'r ysgol | Digonol |

## Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn o'u man cychwyn
- disgyblion ar draws yr ysgol yn datblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd yn effeithiol
- disgyblion yn gwneud defnydd da o'u medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) i gefnogi eu gwaith ar draws y cwricwlwm
- safon ymddygiad bron pob disgybl mewn gwersi ac o amgylch yr ysgol yn dda iawn
- rhan fwyaf yr athrawon yn defnyddio amrywiaeth dda o ddulliau dysgu a gweithgareddau diddorol i ennyn cyfranogiad a diddordeb y disgyblion
- ganddi weithdrefnau cadarn sy'n adnabod a chefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn llwyddiannus
- disgyblion yn gwneud defnydd effeithiol o amrywiaeth eang o ardaloedd awyr agored, sy'n eu galluogi i wneud dewisiadau annibynnol a synhwyrol yn eu dysgu eu hunain

## Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella yn ddigonol oherwydd bod:

- gan arweinwyr weledigaeth gadarn i greu cymuned ddysgu ofalgar a chynhwysol gyda phwyslais amlwg ar sicrhau lles y disgyblion
- aelodau'r corff llywodraethol yn frwdfrydig ac yn gefnogol i waith yr ysgol, gan gyflawni eu dyletswyddau yn gydwybodol
- gweithdrefnau diweddar ar gyfer hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant yn addas
- gan yr ysgol ystod eang o bartneriaethau sy'n ymestyn profiadau dysgu'r disgyblion yn llwyddiannus ac yn cael effaith arwyddocaol ar eu deilliannau
- gan yr ysgol ystod eang o adnoddau dysgu o safon dda ac sy'n hybu ac yn ysgogi'r dysgu yn effeithiol

Fodd bynnag:

- nid yw ffocws yr arweinyddiaeth yn ddigon strategol wrth adolygu cynnydd a monitro effaith gweithdrefnau gwelliant ar ddeilliannau disgyblion
- nid yw'r adroddiad hunanarfarnu'r ysgol yn ddigon arfarnol nac yn adnabod yn glir pob elfen o'r hyn sydd angen ei wella
- nid oes cysylltiad amlwg rhwng deilliannau'r adroddiad hunanarfarnu a blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol

## Argymhellion

A1 Gwella presenoldeb

A2 Sicrhau bod y cynlluniau i ddatblygu medrau rhifedd disgyblion ar draws y cwricwlwm yn seiliedig ar lefel eu gallu mathemategol

A3 Sicrhau bod ansawdd yr adborth i ddisgyblion yn effeithiol

A4 Sicrhau bod yr arweinyddiaeth yn rhoi cyfeiriad strategol clir i'r ysgol

A5 Cryfhau'r broses hunanarfarnu er mwyn adnabod yn glir y meysydd i'w gwella

A6 Ymateb i'r pryderon iechyd a diogelwch mewn perthynas â'r adeilad a thir yr ysgol a godwyd yn ystod yr arolygiad

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn adolygu cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Ar fynediad i'r ysgol, mae gan lawer o'r disgyblion fedrau sylfaenol sy'n is na'r disgwyl. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd cadarn.

Mae bron pob disgybl ar draws yr ysgol yn arddangos medrau gwrando da ac yn sgwrsio'n briodol am eu gwaith. Mae llawer yn llwyddo i wneud cynnydd cadarn yn eu defnydd o'r Gymraeg ar ôl dechrau'r ysgol ac mae medrau llythrennedd llawer o ddisgyblion yn datblygu'n dda. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae mwyafrif y disgyblion yn cyfathrebu'n briodol yn y Gymraeg, gan ddefnyddio geirfa sy'n berthnasol i'w hoed a'u gallu. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn ymateb yn fedrus mewn trafodaethau dosbarth gan gynnig syniadau a defnyddio iaith bwrpasol i'r dasg. Er enghraifft, maent yn trafod nodweddion o blaid ac yn erbyn defnyddio technoleg yn synhwyrol. Fodd bynnag, nid yw rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio'r Gymraeg o'u gwirfodd yn ddigon rheolaidd wrth siaradâ'u cyfoedion yn y dosbarth nac o gwmpas yr ysgol.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agwedd bositif tuag at ddarllen. Maent yn siarad yn hyderus am amrywiaeth o lyfrau sydd o ddiddordeb iddynt. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae llawer ohonynt yn ddarllenwyr rhugl ac ystyrlon ac yn ymdopi'n dda â geiriau anghyfarwydd. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn darllen yn hyderus yn y ddwy iaith gan ddangos ymwybyddiaeth dda o gynulleidfa. Mae'r rhan fwyaf yn ymwybodol o atalnodi ac, o ganlyniad, maent yn darllen gyda mynegiant gyda dealltwriaeth gadarn o'r testun. Mae llawer o'r disgyblion yn defnyddio eu medrau'n dda wrth gywain gwybodaeth. Enghraifft dda o hyn yw'r ffordd maent yn cywain gwybodaeth o ddogfen hanes Tryweryn a'r effaith ar y gymuned.

Ar draws yr ysgol, mae medrau ysgrifennu rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n effeithiol. Mae bron pob un o ddisgyblion iau y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau ysgrifennu Cymraeg wrth ffurfio llythrennau, geiriau a brawddegau syml, er enghraifft wrth ysgrifennu hanes Mari Jones a'i Beibl. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae medrau ysgrifennu'r rhan fwyaf o ansawdd da iawn. Mae ganddynt ddealltwriaeth effeithiol o ystod eang o ffurfiau ysgrifennu ac maent yn amrywio'u brawddegau yn effeithiol. Wrth ysgrifennu'n ymestynnol, maent yn dechrau strwythuro'u gwaith yn gywir gan ddefnyddio atalnodi cywir, ansoddeiriau cyfoethog a chymariaethau effeithiol. Enghraifft dda o hyn yw eu gwaith stori am goblynnod a'r crydd. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, gall y rhan fwyaf ysgrifennu'n effeithiol iawn at wahanol ddibenion yn y ddwy iaith. Maent yn llwyddo i ennyn diddordeb y darllenwyr yn llwyddiannus drwy wneud defnydd effeithiol o eirfa gyfoethog a brawddegu'n estynedig yn fedrus. Enghraifft dda o hyn yw'r adroddiad o safbwynt yr arth wen yn dioddef yn sgil cynhesu byd eang. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn ailddrafftio darnau o waith yn effeithiol ac yn gwella eu hymdrechion cyntaf yn rheolaidd tra, er enghraifft yn ceisio dwyn perswâd wrth ysgrifennu dadl o

blaid ac yn erbyn adeiladu archfarchnad yng nghanol Llandeilo. Mae bron pob un disgybl yn ysgrifennu i'r un safon ar draws y cwricwlwm yn y ddwy iaith ag y maent mewn gwersi iaith.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae medrau rhifedd rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n gadarn. Maent yn dangos gafael sicr o ffeithiau rhif ac yn defnyddio'r wybodaeth hon yn effeithiol i ddatrys problemau wrth ymwneud ag arian a lluosi. Mae gan lawer o ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o werth lle, amser, mesurau a siâp. Mae'r disgyblion hŷn yn defnyddio tablau, diagramau a graffiau syml yn gywir er mwyn casglu a chyflwyno gwybodaeth, er enghraifft wrth gyfri mathau o dai yn eu hardal leol.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datrys problemau sy'n ymwneud ag arian a chanrannau yn llwyddiannus, er enghraifft wrth gostio bargeinion mewn siop. Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio ffeithiau rhif yn hyderus iawn wrth gyfrifo ac mae lleiafrif o'r disgyblion mwy abl, erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn datrys problemau rhifau chwe digid yn gyson hyderus. Mae llawer yn casglu, dehongli a chyflwyno data perthnasol mewn gwahanol ffurfiau yn hyderus. Fodd bynnag, nid yw'r disgyblion ar draws yr ysgol yn gwneud yr un cynnydd yn eu medrau rhifedd mewn agweddau eraill ar draws y cwricwlwm.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud defnydd da o'u medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) i gefnogi eu gwaith ar draws y cwricwlwm. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn arbed ac adlaw eu gwaith i'w ffeiliau personol yn fedrus. Maent yn casglu data a'i gyflwyno ar ffurf graff i ddangos cynnwys traffig y tu allan i'r ysgol. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn rhaglennu a rheoli teganau symudol yn fedrus er mwyn dilyn llwybr at drysor y môr ladron. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu gwybodaeth a'u medrau TGCh i safon uchel. Maent yn ategu clipiau fideo a sain i'w tasgau yn annibynnol i gofnodi eu gwaith ar draws y cwricwlwm. Enghraifft dda o hyn yw'r animeiddio crefftus i adrodd hanes Cantre'r Gwaelod.

Mae'r safonau a welwyd yn yr ysgol yn uwch nag y mae'r data yn ei awgrymu.

Dros y pedair blynedd ddiwethaf, mae perfformiad disgyblion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen ar y deilliannau disgwyliedig ac uwch, yn gyffredinol wedi bod yn yr 25% isaf mewn llythrennedd a datblygiad mathemategol o gymharu ag ysgolion tebyg.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae perfformiad yr ysgol ar y lefel ddisgwyliedig mewn Cymraeg, Saesneg a gwyddoniaeth yn gyson yn y 25% isaf, o gymharu ag ysgolion tebyg dros bedair blynedd. Mae perfformiad mewn mathemateg wedi amrywio rhwng y 25% isaf a'r 25% uchaf. Mae perfformiad yr ysgol ar y lefelau uwch yn y pynciau craidd yn gyffredinol wedi amrywio rhwng y 25% isaf a'r 50% uchaf dros y pedair blynedd ddiwethaf.

Yn y Cyfnod Sylfaen, yn gyffredinol, mae'r merched yn perfformio'n uwch na'r bechgyn ar y lefelau disgwyliedig ac uwch mewn iaith. Mae'r un peth yn wir ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 ar y lefel ddisgwyliedig ac ar y lefelau uwch yn y Gymraeg, Saesneg na gwyddoniaeth.

Nid oes patrwm amlwg rhwng perfformiad disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim a'r rheini nad ydynt yn gymwys ar y deilliannau na'r lefelau disgwyliedig ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen. Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae perfformiad disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn gyffredinol is na'u cyfoedion ar y lefel ddisgwyliedig yn y Gymraeg ac ar y lefel uwch na'r disgwyl mewn mathemateg.

**Lles: Digonol**

Mae bron pob un disgybl yn teimlo'n hapus a diogel yn yr ysgol, ac yn gwybod at bwy i droi os oes ganddynt unrhyw bryderon. Mae safon ymddygiad bron pob disgybl mewn gwersi ac o amgylch yr ysgol yn dda iawn. Maent yn dangos parch amlwg at ei gilydd ac at oedolion. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyfrannu'n dda yn y gwersi ac yn cydweithio'n effeithiol. Enghraifft dda o hyn yw'r gefnogaeth mae criw o ddisgyblion hŷn yr ysgol yn ei chynnig wrth gyflwyno medrau newydd TGCh i'r disgyblion ieuengaf. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn dangos diddordeb a lefel dda o gymhelliant yn eu gwaith ac yn cadw at dasgau'n briodol. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'u targedau ac maent yn deall pa mor dda maent yn ei wneud a sut i wella eu gwaith.

Mae gan bron pob un o'r disgyblion ddealltwriaeth glir o bwysigrwydd bwyta'n iach a chadw'n heini. Mae llais y disgybl yn datblygu yn briodol, er enghraifft wrth gyfrannu syniadau a gwybodaeth i gyd-fynd â themâu newydd. Mae gwaith y cyngor ysgol a'r grŵp eco yn llwyddiannus. Mae'r aelodau yn falch o'u hymdrechion wrth ddylanwadu ar rai o benderfyniadau'r ysgol, fel ychwanegu at adnoddau ymarfer corff a'r llyfrgell. Mae aelodau'r cyngor hefyd yn annog eu cyd-ddisgyblion i fwyta'n iach ac i ofalu am amgylchedd yr ysgol. Maent hefyd yn chwarae rhan allweddol yn y broses cyfweld ymgeiswyr i swyddi yn yr ysgol, er enghraifft wrth benodi pennaeth newydd yn ddiweddar.

Mae'r disgyblion yn chwarae rhan bwysig yn y gymuned leol. Trwy gymryd rhan a chyfrannu at ystod o ddigwyddiadau fel Gŵyl y Synhwyrau a ffeiriau lleol, ynghyd â chefnogi'r banc bwyd a'r ysbyty lleol, mae gan ddisgyblion ymwybyddiaeth gref o'u hardal.

Mae cyfradd presenoldeb yr ysgol wedi gostwng yn gyffredinol dros y tair blynedd ddiwethaf ac wedi bod yn yr 50% is neu'r 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Er hyn, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon yn y bore.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn cynllunio ystod eang o brofiadau dysgu sy'n bodloni anghenion y rhan fwyaf o'r disgyblion ac yn ateb gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol, egwyddorion y Cyfnod Sylfaen a'r maes llafur cytûn ar gyfer addysg grefyddol. Mae gan yr ysgol gynlluniau priodol sy'n bodloni gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. Ar y cyfan, maent yn nodi cyfleoedd addas i ddisgyblion ddefnyddio eu medrau rhifedd a llythrennedd ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth ysgrifennu ffeithiau hanesyddol am Gestyll Cymru ac am draddodiadau Siapan. Fodd bynnag, nid yw'r cynlluniau i ddatblygu rhifedd ar draws y cwricwlwm bob amser yn sicrhau eu bod yn ystyried gallu mathemategol y disgyblion yn ddigon clir.

Mae’r ysgol yn datblygu medrau TGCh y disgyblion mewn modd cynhwysfawr. Er enghraifft, maent yn sicrhau eu bod yn defnyddio meddalwedd bas data, casglu gwybodaeth i greu cyflwyniadau, a defnyddio sgrin werdd i greu bwletin newyddion yr ysgol yn hyderus. Mae’r defnydd o lwyfan digidol mewn rhai dosbarthiadau yn gryfder i ddyfnhau dealltwriaeth y disgyblion a chryfhau cyswllt yr ysgol â’r cartref yn llwyddiannus iawn.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg a’r dimensiwn Cymreig yn effeithiol ar draws yr ysgol. Er enghraifft, maent yn astudio chwedlau o Gymru a gwaith yr artist Helen Elliott er mwyn creu darnau o waith yn seiliedig ar gestyll lleol yn effeithiol. Mae ymweliadau â mannau lleol, fel Castell Carreg Cynnen a Pharc Dinefwr, yn helpu disgyblion i ddatblygu eu hymwybyddiaeth o ddiwylliant a threftadaeth Cymru yn llwyddiannus.

Mae addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn cael ei hannog yn llwyddiannus trwy waith y cwricwlwm a thrwy weithgarwch y cyngor eco. Er enghraifft, mae’r ysgol yn ailgylchu topiau poteli llaeth plastig gyda chwmni amgylcheddol ac wedi defnyddio’r arian i brynu cadair olwyn i’r ysbyty lleol. Mae gan yr ysgol nifer o ardaloedd allanol buddiol fel gardd lysiau gymunedol sy’n hybu dealltwriaeth y disgyblion o arddwriaeth a mentergarwch. Mae’r ysgol yn addysgu’r disgyblion yn effeithiol am egwyddorion masnach deg a’r effaith y mae prynu’r nwyddau hyn yn ei chael ar gynhyrchwyr mewn gwledydd tlawd tramor. Mae hyn yn cyfrannu’n dda at eu hymwybyddiaeth o faterion dinasyddiaeth fyd-eang.

**Addysgu: Da**

Yn gyffredinol, mae ansawdd yr addysgu yn dda ar draws yr ysgol ac yn cael effaith gadarnhaol ar safonau. Mae gan yr athrawon wybodaeth gadarn am y meysydd dysgu a'r pynciau y maent yn eu haddysgu ac maent yn cysylltu eu gwersi’n effeithiol â dysgu blaenorol. Ym mhob dosbarth, mae cydweithio llwyddiannus yn bodoli rhwng yr athrawon a'r cymorthyddion sy’n rhoi cefnogaeth werthfawr i unigolion a grwpiau penodol. Mae’r holl staff yn modelu iaith yn glir a chywir.

Mae rhan fwyaf yr athrawon yn defnyddio amrywiaeth dda o ddulliau dysgu a gweithgareddau diddorol i ennyn cyfranogiad a diddordeb y disgyblion. Mae defnydd o weithgareddau ymarferol a heriol, er enghraifft wrth osod cyfres o gyfarwyddiadau i ymestyn dealltwriaeth y disgyblion o gyfesurynnau, yn cyfoethogi hyn. Yn y rhan fwyaf o wersi, mae cyflwyniadau a holi effeithiol yn hyrwyddo medrau meddwl disgyblion yn llwyddiannus, er enghraifft wrth iddynt ymchwilio ac arbrofi ar effaith pelydrau’r haul.

Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu ar draws yr ysgol yn datblygu'n gadarn. Mae'r athrawon yn rhannu'r amcanion ac yn trafod meini prawf llwyddiant yn fwriadus gyda'r disgyblion. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2 mae’r disgyblion yn creu eu meini prawf llwyddiant yn annibynnol yn llwyddiannus. Mae staff yn disgwyl i'r disgyblion asesu eu gwaith yn ôl y meini prawf hyn. Ar y cyfan, mae’r rhan fwyaf o’r athrawon yn marcio gwaith y disgyblion yn rheolaidd. Fodd bynnag, nid yw’r holl sylwadau bob amser yn rhoi arweiniad sy’n ddigon clir i ddisgyblion ar yr hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith.

Mae staff yn defnyddio deilliannau profion cenedlaethol a system olrhain yn briodol i fesur cynnydd ac i flaenoriaethu cefnogaeth briodol ar gyfer grwpiau penodol o ddisgyblion.  Serch hynny, nid yw'r defnydd o wybodaeth sy'n deillio o hyn yn ddigon effeithiol i olrhain cynnydd pob disgybl ar draws yr ysgol.  Mae adroddiadau blynyddol i rieni yn cynnwys sylwadau gwerthfawr a chynhwysfawr ar gynnydd eu plant, ynghyd â thargedau er mwyn gwella, gan gynnwys sylwadau'r disgyblion ar eu cyflawniad.

### Gofal, cymorth ac arweiniad:  Digonol

Mae'r ysgol yn gymuned hapus a chroesawgar lle mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel.  Mae'r ysgol yn llwyddo i annog disgyblion i ddatblygu ymdeimlad cytûn o werthoedd, gan gynnwys parch tuag at eraill.  Mae datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn cael ei hyrwyddo'n dda ar draws yr ysgol drwy ystyried egwyddorion credoau gwahanol a'u cymharu, ac wrth eu hannog i gyfrannu at ŵyl lenyddol leol ynghyd â gweithgareddau eraill.  Mae'r gwasanaethau ysgol yn creu awyrgylch briodol ac ethos myfyrgar.  Fodd bynnag, nid yw pob disgybl yn cael mynediad i bob un o'r sesiynau addoli ar y cyd.  Mae'r ysgol yn cydweithio'n llwyddiannus â nifer o asiantaethau allanol fel therapydd nam gweld, ymysg eraill.  O ganlyniad, mae ansawdd y gofal a'r gynhaliaeth i'r disgyblion yn dda.

Mae cynlluniau addysg unigol cyfredol ar waith ar gyfer pob disgybl sydd ar y gofrestr anghenion dysgu ychwanegol ac mae'r rhain yn cael eu hadolygu'n briodol gan y disgyblion a'u rhieni.  Mae gan yr ysgol weithdrefnau cadarn sy'n adnabod a chefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.  Mae staff yn nodi'r disgyblion mwy abl a thalentog ac yn darparu'n addas ar eu cyfer.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu dealltwriaeth y disgyblion o bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach a sut i gadw'n heini, yn effeithiol, ac yn eu hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau ymarfer corff yn rheolaidd.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.  Fodd bynnag, hysbyswyd y llywodraethwyr am rai pryderon iechyd a diogelwch yn ymwneud â'r safle a godwyd yn ystod yr arolygiad.

### Yr amgylchedd dysgu:  Da

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol a gofalgar lle mae'r disgyblion yn teimlo'n hapus.  Un o gryfderau'r ysgol yw'r ymdeimlad o barch sy'n bodoli rhwng disgyblion â'i gilydd a rhwng y disgyblion a'r oedolion.  Caiff hyn ei adlewyrchu yn ymddygiad cadarnhaol bron pob un o'r disgyblion.  Mae'r adeilad o ansawdd priodol a'r safle yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda.  Mae llawer o'r dosbarthiadau yn cynnig awyrgylch ddysgu ysgogol gydag arddangosfeydd deniadol sy'n dathlu gwaith disgyblion yn llwyddiannus.  Er enghraifft, ceir arddangosfeydd i ddathlu gwaith ysgrifennu estynedig yng nghyfnod allweddol 2 a lluniadu medrus o gapeli lleol yn y Cyfnod Sylfaen.

Mae darpariaeth dda o adnoddau dysgu sy'n cael eu defnyddio'n bwrpasol er mwyn cyfoethogi'r dysgu a'r addysgu.  Mae hyn yn cynnwys ystod dda o gyfarpar TGCh, gyda bron pob un disgybl yn gwneud defnydd medrus o lechi electronig er mwyn cefnogi eu haddysg yn llwyddiannus.  Yn y Cyfnod Sylfaen, gwneir defnydd effeithiol

o amrywiaeth eang o ardaloedd awyr agored, sy'n galluogi disgyblion i wneud dewisiadau annibynnol a synhwyrol yn eu dysgu eu hunain. Mae'r ddarpariaeth yn cynnwys cyfleodd buddiol i ddisgyblion ddefnyddio'r ardal gysgodol a'r ardd lysiau gymunedol sy'n cyfoethogi eu dysgu yn dda.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Digonol |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae gan arweinwyr weledigaeth gadarn i greu cymuned ddysgu ofalgar a chynhwysol gyda phwyslais amlwg ar sicrhau lles y disgyblion. Mae arweinyddiaeth ofalgar y pennaeth yn sicrhau bod lles y disgyblion yn ganolog i holl waith yr ysgol. Mae'r staff a'r llywodraethwyr yn rhannu'r weledigaeth hon y llwyddiannus. Er hynny, nid yw ffocws yr arweinyddiaeth yn ddigon strategol wrth adolygu cynnydd na monitro gwir effaith gweithdrefnau gwelliant ar ddeilliannau disgyblion.

Mae'r swydd ddisgrifiadau yn gyfredol ac mae unigolion yn cyflawni eu rolau yn briodol mewn perthynas uniongyrchol â chynllun datblygu'r ysgol. Er hynny, nid yw eu rôl wedi datblygu'n llawn o ran monitro'r ddarpariaeth a chyfrannu at brosesau arfarnu'r ysgol. Mae trefniadau rheoli perfformiad addas yn cyfrannu at welliannau mewn addysgu a dysgu ac yn cynnig cyfleoedd i hyrwyddo datblygiad proffesiynol staff trwy hyfforddiant penodol.

Mae aelodau'r corff llywodraethol yn frwdfrydig ac yn gefnogol i waith yr ysgol, gan gyflawni eu dyletswyddau yn gydwybodol. Mae ganddynt ddealltwriaeth gynyddol o gryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu gwella. Maent yn dechrau dadansoddi ystod o ddata perfformiad yn briodol ac mae eu dealltwriaeth o sut mae'r ysgol yn perfformio o'i chymharu ag ysgolion tebyg yn dda. Maent hefyd wedi cychwyn ymweld â'r ysgol i graffu ar lyfrau, mynd ar deithiau dysgu ac arsylwi gwersi. Mae eu rôl ym mhrosesau strategol yr ysgol yn dechrau datblygu'n briodol, er nad ydynt hyd yma yn cyfrannu digon tuag at fonitro'r cynnydd ym mlaenoriaethau'r cynlluniau gwella ysgol.

Mae'r ysgol yn ymateb yn addas i rai o flaenoriaethau cenedlaethol. Fodd bynnag, nid yw cynlluniau rhifedd ar draws y cwricwlwm wedi'u datblygu'n llawn.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Ar y cyfan, mae'r gweithdrefnau diweddar ar gyfer hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant yn addas. Mae'r pennaeth, y llywodraethwyr a'r athrawon yn dadansoddi data'n rheolaidd, yn arsylwi gwersi ac yn craffu ar lyfrau disgyblion. Fodd bynnag, nid ydynt yn defnyddio'r canfyddiadau yn ddigon effeithiol i gynllunio ar gyfer gwella'r ysgol gyfan. Mae'r pennaeth yn weithredol wrth geisio canfod barn rhieni trwy holiaduron rheolaidd a gweithredu ar eu sylwadau.

Mae adroddiad hunanarfarnu diweddaraf yr ysgol yn ddogfen gynhwysfawr sy'n cynnig sylwadau ar ystod eang o agweddau. Fodd bynnag, nid yw'n ddigon arfarnol nac yn adnabod yn glir pob elfen o'r hyn sydd angen ei wella.

Mae’r blaenoriaethau yn y cynllun datblygu ysgol yn canolbwyntio'n briodol ar wella deilliannau ond nid oes cysylltiad amlwg rhyngddo a deilliannau’r adroddiad hunanarfarnu. Mae’n nodi’r dulliau gweithredu o dan y gwahanol dargedau a’r deilliannau disgwyliedig. Nodir hefyd gyfrifoldebau gweithredu a manylion am adnoddau a chost ar gyfer cefnogi’r datblygiadau yn glir. Fodd bynnag, nid yw’r trefniadau ar gyfer monitro cynnydd y targedau yn ddigon trylwyr ac nid oes gan y llywodraethwyr rôl greiddiol yn y broses hyd yma.

Er bod yr ysgol wedi gwneud rhai datblygiadau buddiol yn ddiweddar, nid oes digon o gynnydd ar rai argymhellion yn dilyn yr arolygiad blaenorol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol ystod eang o bartneriaethau sy’n ymestyn profiadau dysgu'r disgyblion yn llwyddiannus ac yn cael effaith arwyddocaol ar eu deilliannau a’u profiadau. Mae’r gymdeithas rhieni yn gefnogol i’r ysgol, ac yn cyfrannu symiau sylweddol i gefnogi’r ysgol a phrynu adnoddau, er enghraifft offer TGCh a thalu am fysiau ar gyfer ymweliadau addysgol. Mae ffocws y pennaeth ar hybu diwylliant drws agored yn llwyddo ac yn cael ei werthfawrogi’n fawr gan rieni.

Mae partneriaeth gadarn yn bodoli â’r gymuned leol. Mae ymweliadau â’r gymuned yn gwneud cyfraniad pwysig i brofiadau’r disgyblion. Maent yn hyrwyddo ymdeimlad o bwysigrwydd perthyn i’w cynefin a’u balchder at eu hardal leol. Mae enghreifftiau da yn cynnwys ymweliadau rheolaidd â chartrefi gofal a chymryd rhan mewn gŵyl Edwardaidd yn rheolaidd. Mae’r ysgol yn cefnogi digwyddiadau yn y gymuned fel Gŵyl Gerdd Llandeilo ac mae’n elwa o gefnogaeth busnesau lleol. Caiff y cysylltiadau hyn effaith gadarnhaol ar les a medrau ysgrifennu’r disgyblion wrth ysgrifennu erthyglau am eu profiadau, er enghraifft.

Mae perthynas dda yn bodoli rhwng yr ysgol a’r cylch meithrin sy’n cyfarfod ar ei thir. Mae hyn yn sicrhau bod disgyblion yn ymgartrefu’n gyflym wrth gychwyn yn yr ysgol. Mae cysylltiadau cadarn a threfniadau trosglwyddo effeithiol yn bodoli gyda’r ysgolion uwchradd ac mae amrywiaeth o weithgareddau pontio llwyddiannus ar gyfer y disgyblion.

Cydweithia’r ysgol yn bwrpasol gydag ysgolion cyfagos a’r ysgol uwchradd i gymedroli gwaith disgyblion yn y pynciau craidd. Mae’r prosesau hyn yn ymgais lwyddiannus i ddatblygu ymwybyddiaeth athrawon o’r safonau disgwyliedig ar ddiwedd y ddau gyfnod allweddol.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae gan yr ysgol drefniadau cyllidol trylwyr ac mae gwariant wedi’i gysylltu’n dda ag amcanion, targedau a chynlluniau’r ysgol. Mae’r pennaeth a’r llywodraethwyr yn monitro ac yn rheoli gwariant yn ofalus. Defnyddir y staff a’r adnoddau ariannol yn effeithiol i gefnogi blaenoriaethau’r ysgol ar gyfer codi safonau ac ehangu profiadau i ddisgyblion. Fodd bynnag, nid yw’r lefel staffio yn y Cyfnod Sylfaen ar hyn o bryd yn cydymffurfio’n llawn ag argymhellion cenedlaethol.

Gwna athrawon ddefnydd pwrpasol o’u hamser cynllunio, paratoi ac asesu, ac fe gaiff y trefniadau ar gyfer hyn eu rheoli’n dda. Mae cymorthyddion yn cynnig cefnogaeth gadarn ac fe gânt effaith gadarnhaol ar ddatblygiad a chyrhaeddiad disgyblion, er enghraifft trwy wella rhesymu mathemateg yng nghyfnod allweddol 2.

Mae gan yr ysgol ystod eang o adnoddau dysgu ac mae’r rhain o safon briodol ac yn hybu ac ysgogi’r dysgu yn effeithiol. Mae’r ysgol yn ddeniadol a lliwgar ac yn arddangos gwaith disgyblion yn symbylol. Mae’r athrawon yn cynllunio’n bwrpasol i wneud defnydd effeithiol o’r ardal allanol i gyfoethogi’r profiadau dysgu.

Mae’r ysgol yn datblygu’n gymuned ddysgu briodol. Mae cyfleoedd perthnasol i staff wella eu medrau a’u gwybodaeth broffesiynol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar gynllunio ac addysgu ac yn rhoi gwell cefnogaeth i ddisgyblion bregus. Mae’r defnydd a wneir o’r grant amddifadedd yn cael effaith gadarnhaol ar wella safonau darllen y disgyblion sy’n gymwys i’w dderbyn drwy’r ysgol.

Er bod safonau’n dda, o ystyried ansawdd yr arweinyddiaeth strategol a’r diffygion mewn agweddau o’r hunanarfarnu a’r ddarpariaeth, mae’r ysgol yn cynnig gwerth digonol am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6692061 - YSGOL GYNRADD FFAIRFACH**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 99 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 6.4 | |
| Grŵp PYD | 1 | (PYD<=8%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 18 | 13 | 17 | 14 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 66.7 | 84.6 | 76.5 | 64.3 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 4 | 4 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 18 | 13 | 17 | 14 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 66.7 | 84.6 | 76.5 | 64.3 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 4 | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 5.6 | 23.1 | 11.8 | 0.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 4 | 4 |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 18 | 13 | 17 | 14 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 66.7 | 92.3 | 82.4 | 64.3 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 4 | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 0.0 | 7.7 | 11.8 | 0.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 4 | 4 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 18 | 13 | 17 | 14 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 92.9 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 0.0 | 69.2 | 58.8 | 71.4 |
| Chwartel meincnod | 4 | 2 | 3 | 3 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'l gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6692061 - YSGOL GYNRADD FFAIRFACH**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 99 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 6.4 | |
| Grŵp PYD | 1 | (PYD<=8%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 17 | 10 | 15 | 10 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 64.7 | 80.0 | 80.0 | 90.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 4 | 4 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 17 | 10 | 15 | 10 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 70.6 | 90.0 | 73.3 | 90.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 4 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 23.5 | 0.0 | 53.3 | 60.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 2 | 2 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 17 | 10 | 15 | 10 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 52.9 | 60.0 | 80.0 | 70.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 4 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 11.8 | 0.0 | 53.3 | 40.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 2 | 3 |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 17 | 10 | 15 | 10 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 88.2 | 80.0 | 100.0 | 90.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 1 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 35.3 | 20.0 | 53.3 | 50.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 2 | 3 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 17 | 10 | 15 | 10 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 70.6 | 90.0 | 93.3 | 90.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 4 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 23.5 | 20.0 | 53.3 | 50.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 3 | 2 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 57 | 56<br>98%<br>98% | 1<br>2%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 57 | 53<br>93%<br>92% | 4<br>7%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 57 | 55<br>96%<br>96% | 2<br>4%<br>4% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 57 | 57<br>100%<br>97% | 0<br>0%<br>3% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 57 | 51<br>89%<br>96% | 6<br>11%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 56 | 53<br>95%<br>96% | 3<br>5%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 57 | 57<br>100%<br>99% | 0<br>0%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 57 | 57<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 57 | 47<br>82%<br>90% | 10<br>18%<br>10% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 55 | 40<br>73%<br>95% | 15<br>27%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 56 | 39<br>70%<br>76% | 17<br>30%<br>24% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 56 | 39<br>70%<br>84% | 17<br>30%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

# Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 35 | 20 | 12 | 2 | 0 | 1 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 57% | 34% | 6% | 0% | | |
| | | 62% | 34% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 35 | 24 | 10 | 1 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 69% | 29% | 3% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 35 | 23 | 11 | 1 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 66% | 31% | 3% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 34 | 14 | 16 | 4 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 41% | 47% | 12% | 0% | | |
| | | 61% | 35% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 35 | 12 | 21 | 1 | 0 | 1 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 34% | 60% | 3% | 0% | | |
| | | 46% | 48% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 35 | 18 | 16 | 1 | 0 | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 51% | 46% | 3% | 0% | | |
| | | 60% | 37% | 2% | 1% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 35 | 21 | 14 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 60% | 40% | 0% | 0% | | |
| | | 64% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 35 | 12 | 17 | 4 | 1 | 1 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 34% | 49% | 11% | 3% | | |
| | | 48% | 43% | 7% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 35 | 14 | 17 | 1 | 0 | 3 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 40% | 49% | 3% | 0% | | |
| | | 59% | 35% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 35 | 12 | 21 | 1 | 0 | 1 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 34% | 60% | 3% | 0% | | |
| | | 59% | 38% | 3% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 35 | 17 | 17 | 1 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 49% | 49% | 3% | 0% | | |
| | | 66% | 32% | 2% | 1% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 35 | 10 | 15 | 8 | 0 | 2 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 29% | 43% | 23% | 0% | | |
| | | 55% | 39% | 5% | 2% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 35 | 13 | 18 | 4 | 0 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 37% | 51% | 11% | 0% | | |
| | | 48% | 41% | 9% | 2% | | |

| | Number of responses / Nifer o ymatebion | Strongly Agree / Cytuno'n gryf | Agree / Cytuno | Disagree / Anghytuno | Strongly disagree / Anghytuno'n gryf | Don't know / Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 35 | 16<br>46% | 17<br>49% | 1<br>3% | 0<br>0% | 1 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 5% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 34 | 12<br>35% | 18<br>53% | 2<br>6% | 0<br>0% | 2 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 48% | 42% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 34 | 14<br>41% | 20<br>59% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 57% | 40% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 35 | 10<br>29% | 14<br>40% | 2<br>6% | 0<br>0% | 9 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 52% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 34 | 11<br>32% | 18<br>53% | 3<br>9% | 0<br>0% | 2 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 53% | 39% | 6% | 1% | | |
| The school is well run. | 35 | 17<br>49% | 15<br>43% | 1<br>3% | 0<br>0% | 2 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 61% | 34% | 4% | 2% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Ms Vanessa Bowen | Arolygydd Cofnodol |
| Mrs Hazel Hughes | Arolygydd Tîm |
| Mr David Owen Jenkins | Arolygydd Lleyg |
| Mr Owain Gwyndaf Jones | Arolygydd Cymheiriaid |
| Ms Meinir Morgan (Pennaeth) | Enwebai |

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae’r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae’r tabl canlynol yn nodi’r amrediad oedrannau sy’n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy’n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw’r grŵp blwyddyn sy’n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae’r Cyfnod Sylfaen a’r cyfnodau allweddol yn cwmpasu’r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

# Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.